| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Ebrill 2015** |
| **Arweinydd/Swyddog:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Trefniadau ar gyfer Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor** |

---

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2015/16.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn cael eu hethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Pwrpas yr adroddiad yw cytuno ar y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2015/16 sydd i'w hethol yn ffurfiol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cytuno y bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn gyngor 2015 yn cael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 12 Mai 2015.

## 4 Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn 2006 cytunodd y Cyngor gyda chasgliadau'r Panel Moderneiddio blaenorol bod y weithdrefn flaenorol pan gynhelid cyfarfod Blynyddol y Cyngor heb unrhyw sicrwydd go iawn ynglŷn â phwy fyddai'n cael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn tynnu oddi wrth urddas yr achlysur.

4.2 Penderfynodd y Cyngor y dylid mynd i'r afael â'r trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod a gynhelir cyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

4.3 Is-gadeirydd presennol y Cyngor yw'r Cynghorydd Gwyneth Kensler. Y traddodiad yw bod Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

4.4 Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp ddarparu enwebiadau ar gyfer rôl Is-gadeirydd y Cyngor gogyfer â'r flwyddyn ddinesig nesaf. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae dau enwebiad wedi dod i law. Yr enwebeion yw: y Cynghorydd Ann Davies a'r Cynghorydd Win Mullen-James

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw rolau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ar hyn o bryd telir cyflogau uwch o £21,500 ac £14,000 i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn y drefn honno. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y cyflog sylfaenol a delir i bob aelod.

**7 Pa ymgynghori a wnaed?**

7.1 Ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grŵp ynghylch enwebu aelodau i rôl Is-Gadeirydd y Cyngor.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

8.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhelliad hwn.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Mae risg i enw da i'r Cyngor os nad oes sicrwydd pwy gaiff eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol.

**10 Pŵer i wneud y Penderfyniad?**

10.1 Erthygl 5 Cyfansoddiad y Cyngor.
Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol 1972.